# Adroddiad Arolygu

**Canolfan Dysgu Cynnar Pobl Bach**

**Merlin Building**
**Heol Llangynnwr**
**Caerfyrddin**
**SA31 2BL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
psi@nationalarchives.gov.uk
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Canolfan Dysgu Cynnar Pobl Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pobl Bach Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Chwefror 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad hwn yn fawr iawn, gan fod ganddynt lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain yn dda iawn. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol; gan wneud dewisiadau'n gyson am yr hyn y maent yn ei wneud a sut maent am dreulio eu hamser yn y lleoliad. Mae'r plant yn annibynnol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n seiliedig ar chwarae. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff.

Mae'r staff yn cynnig lleoliad hapus ac ysgogol sy'n canolbwyntio ar y plant, ac maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o anghenion unigol y plant ac yn llwyr ddeall y ffordd orau o gefnogi'r plant yn eu diddordebau, eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r staff yn rheoli ymddygiadau'n dda iawn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da iawn dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod y safle yn groesawgar, yn ddeniadol ac yn drefnus tu hwnt. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth ragorol o adnoddau diddorol, sy'n ehangu sgiliau a diddordebau'r plant.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth wych ar gyfer eu lleoliad, sy'n hyrwyddo canlyniadau rhagorol ar gyfer y plant. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni ac yn gweithio'n barhaus i wneud gwelliannau i'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff drwy gyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol. Maent yn meithrin partneriaethau ag ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn darparu digwyddiadau a gweithgareddau pwrpasol i'r plant.

| Llesiant | Rhagorol |
| --- | --- |

Mae gan y plant lais rhagorol yn y lleoliad hwn. Maent yn cyfleu eu dymuniadau, eu dewisiadau a'u hanghenion yn hyderus iawn. Mae'r plant yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd cyffrous ac arloesol i wneud dewisiadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt.  Er enghraifft, wrth sgwrsio fel rhan o grŵp o ffrindiau wrth y bwrdd cinio, soniodd y plant am weithgareddau'r wythnos a'r dewisiadau y gallent eu gwneud i gymryd rhan yng ngweithgareddau gwahanol y lleoliad, fel nofio. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu parchu'n fawr. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn yn hyderus os gallant gael sesiwn cerddoriaeth a chanu gyda gitars, tra dewisodd eraill ymlacio a chael seibiant ar y clustogau yn yr ardal dawel.

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn llawn brwdfrydedd ac maent wedi setlo'n ardderchog. Maent yn mynegi eu boddhad wrth iddynt weld eu ffrindiau ac yn dechrau cynllunio'r diwrnod o'u blaenau'n awyddus. Maent yn dangos eu bod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd, eu ffrindiau a'r staff ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad ac yn mynegi eu dewisiadau a'u syniadau ynghylch gweithgareddau yn llawn cyffro. Er enghraifft, wrth iddynt ffurfio ciw i fynd i'r awyr agored i gwrdd ag ymwelydd, gwnaeth y plant sgwrsio'n gyffrous am y gweithgaredd yr oeddent ar fin cymryd rhan ynddo.

Mae rhyngweithio'r plant ymysg ei gilydd a gyda'r staff yn ofalgar ac yn garedig. Maent yn cydweithredu'n agored i wneud penderfyniadau, i ddatrys problemau ac i gwblhau tasgau. Er enghraifft, yn ystod gêm pŵl, roedd y plant hŷn yn esbonio rheolau'r gêm i'r plant iau ac roeddent yn cefnogi ei gilydd i saethu'r peli gwahanol liw. Mae'r plant hŷn yn mwynhau chwarae mewn tŷ doliau mawr ac yn siarad yn frwdfrydig am symud dodrefn i wahanol ystafelloedd.

Mae'r plant wir yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn llawn cymhelliant, yn llawn bywyd, ac yn llwyr ymroi i'r gweithgareddau a ddarperir. Mae'r plant hefyd yn defnyddio eu menter eu hunain ac yn arwain eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd yn yr awyr agored, gofynnodd y plant am arbrofi ag ewyn fel rhan o'u gweithgaredd chwarae blêr. Gwnaeth eraill fwynhau'r rhyddid i ddringo, rholio drwy gylchoedd ac adeiladu â blociau pren mawr. Yn ystod sesiwn heboga yn yr ardal awyr agored fel rhan o gyfres wedi'i chynllunio o ymwelwyr a phrofiadau wythnosol, roedd y plant yn dewis yn hyderus a oeddent yn dymuno gafael yn yr adar. Roedd y plant yn gwrando'n ofalus ar yr hebogydd wrth iddynt ddysgu am gudyllod coch, hebogau a thylluanod corniog. Roeddent yn awyddus i wirfoddoli i wisgo'r faneg briodol er mwyn gafael yn yr adar ysglyfaethus, gan arwain at ymdeimlad mawr o gyflawni.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Mae hyn yn eu galluogi i wneud pethau drostynt hwy eu hunain, i wneud dewisiadau gwell, i gynllunio eu dysgu eu hun ac i ddatrys problemau'n effeithiol. Mae'r plant yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol ac yn helpu eu hunain, os dymunant, i'r poteli dŵr o'u bagiau. Maent yn dewis o blith dewis rhagorol o adnoddau, cyfarpar neu gemau electronig yn

annibynnol, gan eu dychwelyd i'r storfeydd neu'r unedau dynodedig pan fyddant wedi gorffen.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hamgylchedd, felly maent yn nodi ac yn rheoli risgiau dyddiol yn effeithiol. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant yn unol â pholisi a gweithdrefn y lleoliad. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn, er enghraifft maent yn sicrhau eu bod yn sychu arwynebau yn gyson cyn ac ar ôl amser bwyta a gweithgareddau. Mae'r staff yn hyrwyddo annibyniaeth y plant o ran mynd i'r toiled a golchi eu dwylo, ond maent bob amser wrth law i annog ac atgoffa'r plant pam mae golchi dwylo'n drylwyr yn bwysig. Mae'r staff yn y lleoliad yn darparu bwydlen faethlon ac amrywiol ac mae'r plant yn mwynhau rhoi cynnig ar brydau newydd. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau'r cyfle i lenwi eu platiau eu hunain gyda chyw iâr melys a sawrus a reis a chânt eu canmol pan fyddant yn gofyn am gael rhagor. Maent yn rhoi arferion diogel ac effeithiol ar waith ar gyfer alergeddau'r plant, ac maent yn cadw gwybodaeth glir yn yr ardal fwyta, ac mae'r staff yn cyfathrebu'n glir â'i gilydd yn ystod amser bwyd. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw adeg pan gaiff meddyginiaeth ei rhoi ar ap, lle mae'r rhieni yn gallu gweld y wybodaeth ar unwaith. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth ofalus i'w hamgylchedd a gweithgareddau pan fyddant yn gwneud cynlluniau ar gyfer y plant, ac maent yn wybodus iawn am anghenion dysgu ychwanegol y plant.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gynnes ac yn garedig, gan ddangos eu bod yn adnabod y plant yn dda. Maent yn deall anghenion unigol y plant ac yn cydnabod pan fydd angen iddynt atgyfnerthu strategaethau ymddygiad cadarnhaol megis pan fydd y plant yn cyffroi gormod. Mae'r staff yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i ddangos caredigrwydd ac amynedd i eraill. Maent yn fodelau rôl da iawn ac yn ymddwyn mewn ffordd gyson a digyffro, gan atgoffa'r plant eu bod yn cael cymryd eu hamser a bod digon o gyfarpar ar gael i bawb. Mae'r staff yn cyfathrebu'n glir ac yn esbonio i'r plant beth sy'n digwydd nesaf. Maent yn rhoi canllawiau clir cyn i'r gweithgareddau newydd ddechrau. Er enghraifft, wrth i'r plant aros i'r sesiwn heboga ddechrau, roedd y staff yn esbonio pwysigrwydd dangos gofal a pharch i'r adar. Yn ystod gweithgareddau o'r fath, mae'r staff yn sgwrsio â'r plant yn gyson, gan ganmol a chynnig geirfa newydd, *"Can you say Owl? Chi'n gallu dweud Gwdihŵ?"*

Mae gan y staff wybodaeth ragorol am ddatblygiad plant a dealltwriaeth ohono. Maent yn arsylwi ar y plant ac yn cynllunio gweithgareddau ysgogol yn unol â'u hoedran, eu sgiliau a'u diddordebau. Maent yn ymateb i anghenion y plant ac yn gwrando'n ofalus ar eu safbwyntiau, gan sicrhau eu bod yn hyrwyddo eu hawliau mewn amgylchedd dysgu llawn parch. Yn ystod clwb gwyliau, gwelsom amrywiaeth lawn o weithgareddau cyffrous ac ymweliadau wedi'u cynllunio. Mae'r plant yn wirioneddol gyffrous wrth weld y

gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno iddynt yn y cyntedd ar amserlen weledol. Er enghraifft, taith i'r traeth ac yna wneud cludweithiau môr a gwaith celf o'r traeth, gwneud gemwaith, teclynnau bwydo adar a chebabau ffrwythau, prynhawniau gwyddoniaeth a mabolgampau. Mae'r staff a'r plant yn sgwrsio'n frwdfrydig wrth gofio am eu taith i'r goedwig yr wythnos flaenorol, a ddaeth i ben ag atgofion melys o gael siocled poeth yn y caffi.

| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan yr arweinwyr fesurau effeithiol ar waith ac maent yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn darparu mynediad i'r lleoliad drwy ddrws awtomatig, a dim ond pan fydd y staff yn ei agor y gellir cael mynediad i'r ardal dan do. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn olau, wedi'i awyru'n dda, ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon uchel iawn. Maent yn cadw asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer yr adeilad, yr ardal awyr agored, gweithgareddau a theithiau, ac yn eu hadolygu'n flynyddol neu pan fo angen. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, yn cadw asesiad risg tân pwrpasol, ac yn sicrhau bod cyfarpar tân yn cael ei wasanaethu'n flynyddol. Maent yn llyfr ymwelwyr a bocsys cymorth cyntaf. Maent hefyd yn sicrhau bod y staff a'r plant yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y lleoliad, gan gofnodi'r wybodaeth hon ar ap. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cario iPads i ddiweddaru'r cofrestrau, gwybodaeth ddyddiol, ac i gynnal arsylwadau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal dan do yn daclus tu hwnt ac yn ddeniadol. Maent yn cynnig ardaloedd pwrpasol i ddarparu ar gyfer plant y tu allan i'r ysgol. Er enghraifft, mae'r ystafelloedd ar y llawr gwaelod yn cynnig cyfleoedd dysgu gwahanol, fel ystafell gemau, ystafell celfyddydau greadigol ac ystafell fwyta ar gyfer pob amser bwyd. Mae'r arweinwyr yn defnyddio murluniau cyffrous a dwyieithog er mwyn ysgogi sgiliau dysgu ac iaith y plant. Er enghraifft, maent yn arddangos cymeriadau stori, siapiau, planedau, map o'r byd a murlun sy'n dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn dda iawn, gydag amrywiaeth ragorol o gyfleoedd chwarae sy'n addas i'r holl ystodau oedran y gofelir amdanynt. Maent yn sicrhau bod yna gynllun addas ar gyfer plant, sy'n galluogi'r plant i ddewis gweithgareddau ac adnoddau'n annibynnol. Mae'r arweinwyr yn darparu storfeydd a thoiledau sy'n hygyrch iawn i'r plant. Maent yn cynnig ardaloedd ychwanegol dan do ar lawr cyntaf y lleoliad, sy'n cynnwys: cegin bwrpasol; swyddfa ddiogel; ardal agored fawr i gynnal gweithgareddau fel coginio; ystafell amlbwrpas lle gall y plant hŷn fwynhau sesiynau sinema a lle mae'r staff yn cynnig sesiynau tylino babanod. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod drws awtomatig y brif fynedfa dan glo pan fydd y plant yn defnyddio'r ardal i fyny'r grisiau. Maent yn cynnig amgylchedd dysgu diogel yn yr awyr agored gyda lloches fawr. Gall y plant gyrraedd yr ardal awyr agored drwy giât ar ochr yr adeilad, ac mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn wyliadwrus wrth iddynt ddefnyddio'r ardal awyr agored hon.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd uchel iawn. Maent yn darparu amrywiaeth eang o ddodrefn, adnoddau a chyfarpar sy'n briodol o ran oedran, er mwyn ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau a chyfleoedd i'r plant ddysgu drwy brofiadau dysgu chwilfrydedd a synhwyraidd. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau sy'n dathlu ieithoedd, amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn parhau i ddatblygu'r ardal awyr agored, sy'n cynnig amrywiaeth o adnoddau pren o safon. Maent hefyd yn gwneud trefniadau rhagorol a chyffrous i'r plant fwynhau profiadau yn yr awyr agored, fel teithiau i draethau a choedwigoedd lleol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn frwd iawn am y ddarpariaeth y maent yn ei chynnig i'r plant y tu allan i'r ysgol. Mae ganddynt weledigaeth arloesol y maent yn ei rhannu â'r staff, y rhieni a'r plant, ac maent yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod eu datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn wybodus am ofynion y safonau gofynnol cenedlaethol. Er enghraifft, maent yn cadw polisïau a gweithdrefnau cyfredol, ac yn eu hadolygu'n flynyddol neu pan fo angen. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion megis ffeiliau'r plant yn cael eu cwblhau cyn eu cofrestru, ac yn cynnwys tystiolaeth o ganiatadau rhieni neu ofalwyr. Maent wedi'u cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae eu hyswiriant a'u dogfennau car yn ddilys.

Mae'r arweinwyr yn monitro ansawdd eu lleoliad ac yn gwneud cynlluniau parhaus ar gyfer gwelliannau, drwy grantiau a buddsoddiadau gofalus. Maent yn ceisio adborth gan y rhieni a'r staff, ac yn sgwrsio â'r plant y tu allan i'r ysgol yn barhaus, er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi syniadau a diddordebau'r plant ar waith. Mae'r arweinwyr yn llunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal, y maent yn ei ddefnyddio fel sylfaen i wella ansawdd eu darpariaeth.

Mae'r arweinwyr yn dewis tîm o staff yn effeithiol, sy'n llawn gwybodaeth ac yn frwd am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi'r staff yn gyson, sy'n hynod frwdfrydig ac yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cynnig amgylchedd dysgu caredig ac ysgogol ar gyfer pob plentyn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cadw'r ffeiliau'n gyfredol ac maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r staff fyfyrio ar dargedau unigol y maent yn eu hadolygu bob tri mis. Maent yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol y staff yn gyfredol. Mae'r staff yn hapus ac yn mwynhau'r cyfleoedd a roddir iddynt ddatblygu eu sgiliau ac i barhau â'u llwybrau datblygu proffesiynol.

Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cryf ag ysgolion drwy gydol y flwyddyn. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'u chwaer-leoliadau i sicrhau bod darpariaeth gofal plant hyblyg ar gyfer plant y tu allan i'r ysgol. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau agored a

chadarnhaol â'r rhieni ac yn sicrhau eu bod yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl drwy ap negeseua bob dydd. Maent yn ymrwymedig i weithio gyda rhieni a theuluoedd er mwyn hyrwyddo canlyniadau rhagorol ar gyfer llesiant, datblygiad a sgiliau bywyd y plant. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n galed i gynnig amserlen gyffrous ac amrywiol. Maent yn cynllunio digwyddiadau, ymwelwyr, gweithgareddau a theithiau i sicrhau bod y plant yn cael profiadau cyffrous i wella eu sgiliau ac i ddatblygu eu gwybodaeth am eu cymuned a'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, teithiau i amgueddfeydd, cestyll a ffermydd, ac ymweliadau gan weithwyr proffesiynol ym maes Heboga, Tân a Diogelwch a sgiliau Pêl-droed.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/10/2024